Cronfa Datblygu Cynaliadwy
Sustainable Development Fund
BANNAU BRYCHEINIOG

# Nodyn Cyfarwyddyd y Gronfa Datblygu Cynaliadwy ar gyfer Neuaddau Cymunedol/Pentref

Mae Neuaddau Cymunedol yn aml wrth galon bywyd cymunedol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Maen nhw'n galluogi pobl a grwpiau i ddod at ei gilydd i gymdeithasu, chwarae, creu, cynllunio, dysgu, dathlu, cynnal digwyddiadau a llawer mwy. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi hyn oll, a gall ystyried ceisiadau am brosiectau a mentrau sy'n helpu i sicrhau cynaliadwyedd ein mannau cymunedol – gan ddiogelu Neuaddau ar gyfer y dyfodol a lleihau eu heffaith amgylcheddol.

Yn ogystal â helpu i gyflawni'r amcanion "Pobl" a "Lle" yng Nghynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol, mae Neuaddau Cymunedol yn helpu i gyflawni nifer o feini prawf y Gronfa Datblygu Cynaliadwy a nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru – gan gynnwys y rhai sy'n cefnogi:

- *cymunedau, trefi a phentrefi cynaliadwy;*
- *Cymru o gymunedau cydlynus: cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da;*
- *cyfranogiad pobl ifanc;*
- *cyfleoedd i gymryd rhan mewn chwaraeon a hamdden;*
- *mwy o gyfleoedd i wirfoddolwyr neu gyflogaeth leol.*

Mae'n bosibl y gall y Gronfa Datblygu Cynaliadwy gyfrannu at, er enghraifft:

- *Mesurau Effeithlonrwydd Ynni:* fel arfer, mae hyn yn dilyn archwiliad ynni arbenigol sy'n nodi argymhellion clir yn nhrefn blaenoriaeth, ac yn cynnwys tystiolaeth ategol;
- *Digwyddiadau a Gweithgareddau:* diwallu'r angen a nodwyd;
- *Gwelliannau ac Uwchraddiadau Strwythurol:* lle gellir dangos eu bod yn darparu buddion gwirioneddol.

Yn ogystal â bodloni gofynion cyffredinol y Gronfa Datblygu Cynaliadwy, mae angen i gynigion ddangos:

- *y ffordd y mae'ch Neuadd yn cael ei defnyddio a'r rôl y mae'n ei chwarae yn y gymuned - bydd darparu calendr archebion yn ddefnyddiol, ynghyd â llythyrau/e-byst o gefnogaeth gan ddefnyddwyr rheolaidd;*
- *bod polisïau yn eu lle i gefnogi rheolaeth y Neuadd – gweler y rhestr a awgrymir gan Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys (PAVO) yn Atodiad 1 isod;*
- *bod y cyfleuster yn cael ei hyrwyddo a'i farchnata mor eang â phosibl;*
- *eich bod wedi ymgynghori â defnyddwyr ynghylch cynigion y prosiect a'u bod yn cymryd rhan ynddynt;*

- *y gwahaniaeth y byddai'r gwaith a gyllidir yn ei wneud, e.e. denu defnyddwyr newydd i'r Neuadd gan gynyddu incwm; gwella effeithlonrwydd ynni gan greu gofod cynnes a defnyddiol; gwella hygyrchedd; darparu gwasanaethau hanfodol yn lleol;*
- *bod yr incwm a ddaw o logi yn cynnwys costau rhedeg a chynnal a chadw hanfodol neu fod cynlluniau yn eu lle i weithio tuag at hynny;*
- *bod unrhyw ddeunyddiau a ddefnyddir yn gyfeillgar i'r amgylchedd ac yn deillio o ffynonellau lleol cyn belled ag y bo modd, gyda chontractwyr lleol yn gwneud y gwaith os yn bosibl;*
- *eich bod yn cydweithio i ddarparu gwasanaethau os oes mwy nag un neuadd yn y gymuned.*

***Ffynonellau Arian Cyfatebol Posibl***

- Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol Llywodraeth Cymru: Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol | LLYW.CYMRU
- Cronfa Pobl a Lleoedd y Loteri Genedlaethol: People and Places: Medium grants | The National Lottery Community Fund (tnlcommunityfund.org.uk) - £10,001 - £100,000
- Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol Cymru | Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol (tnlcommunityfund.org.uk) – hyd at £10k, felly'n rhy fach yn ôl pob tebyg
- Cylch 2 y Gronfa Perchnogaeth Gymunedol: sut i fynegi eich diddordeb mewn gwneud cais - GOV.UK (www.gov.uk) – cronfa a weinyddir gan Lywodraeth San Steffan – rhan o'r rhaglen "Ffyniant Bro".

Gall Cynghorau Gwirfoddol Sirol hefyd roi cyngor ar gyfleoedd ariannu a datblygu prosiectau, a'ch rhoi mewn cysylltiad â Grwpiau Rheoli Neuaddau eraill sydd wedi ymgymryd â datblygiadau tebyg:

| | |
|---|---|
| Powys | Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys (PAVO)<br>http://www.pavo.org.uk<br><br>Cefnogi Adeiladau Cymunedol (pavo.org.uk) |
| Sir Gâr | Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr (CAVS)<br>01267 245555 / admin@cavs.org.uk / http://www.cavs.org.uk<br><br>Rhwydwaith Canolfannau Cymunedol - CGGSG~CAVS |
| Sir Fynwy | Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent (GAVO)<br>01291 675474 / info@gavo.org.uk / https://www.gavo.org.uk |

## Atodiad 1 – Adeiladau Cymunedol: Rhestr Wirio Polisïau/Dogfennau

- Dogfen Lywodraethu
- Asesiadau Risg (adeilad, tân a Covid)
- Polisi Iechyd a Diogelwch
- Amodau llogi gan gynnwys y Cytundeb â'r Llogwyr
- Polisi Ariannol
- Polisi Cronfeydd Wrth Gefn
- Polisi Diogelu
- Polisi Diogelu Data a Phreifatrwydd
- Polisi Diogelwch Tân
- Gweithdrefn Gwacáu Adeilad
- Polisïau Yswiriant
- Trwyddedau (teledu, cerddoriaeth, eiddo ar gyfer gwerthu alcohol ac ati)
- Polisi Gwirfoddoli
- Cyfle Cyfartal
- Polisi Cynnal a Chadw
- Rhestr Wirio i Logwyr wrth Adael Lleoliad
- Y Weithdrefn ar gyfer Contractau Gwasanaeth
- Polisi Recriwtio
- Y Weithdrefn Gwyno
- Polisi a Chofrestr Gwrthdrawiad Buddiannau
- Polisi/Cynllun Cau mewn Argyfwng
- Polisi TCC